

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Lun, Mai 18fed 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Maldwyn Jones, Alwyn Jones, Gary Thomas, Bethan Thomas, Gwenda Evans a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eilir Rowlands, Eifion Davies, Iolo Evans, Gwenda Morris a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion a dderbyniwyd:-

i) Rose Cottage, ger Pale, Llandderfel - cafwyd cadarnhad gan Cyngor Gwynedd mae Scottish Power oedd yn gyfrifol am y difrod i'r ffordd ac wedi achosi i'r dŵr fynd lawr at Rose Cottage. Gan fod y ffordd ar dir preifat cyfrifoldeb y perchennog tir oedd trafod y mater gyda Scottish Power.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro - Heol Trafalgar ar y 13/07/20.

ii) Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro - ffordd ger y Bryn Tirion, Llandderfel ar y 13/07/20.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-

C20/0336/04/LL – Cais ar gyfer codi estyniad unllawr to fflat i flaen yr ysgol i greu derbynfa a stafelloedd staff a gweinyddol. Ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn.

vi) Materion Ariannol.

a) Praesept.

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept o £4,500.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Came & Company (Yswiriant). Cytunodd y clerc wneud trefniadau gyda'r cynghorwyr perthnasol i arwyddo'r sic.

c) Cyfrifon 2019-20.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2019-20 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir. Cytunwyd i'w arwyddo'n swyddogol unwaith y byddai'n ymarferol i gwrdd fyny mewn cyfarfod.

ch) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i anfon yr wybodaeth angenrheidiol drwy e-bost i Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt archwilio'r cyfrifon.

dd) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Tŷ Gobaith, Tenovus a Tarian Cymru. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at waith Tenovus ac i drafod y ceisiadau eraill eto ym mis Mehefin. Trafodwyd hefyd sut y gallai'r Cyngor gefnogi'r gwasanaethau lleol yn ystod y cyfnod heriol yma a chytunwyd i gyfrannu £100 tuag at brynu offer PPE i staff a thrigolion cartref Tirionfa, Llandderfel.

vii) Materion lleol.

a) Derbyniwyd y cwynion isod i sylw Cyngor Gwynedd:-

- i) Dwr yn hel ger Coed y Foel Uchaf, Frongoch – roedd y clerwr wedi anfon y cwyn ymlaen yn barod ac roedd wedi derbyn cadarnhad fod rhaglen waith wedi ei greu i ddatrys y broblem.
- ii) Angen clirio ffosydd yn Llanfor – roedd y clerwr wedi anfon y gwyn ymlaen yn barod ac roedd wedi derbyn cadarnhad fod y gweithlu am wneud y gwaith ffosio.
- iii) Baw cwn ar y llwybr troed o'r A494 i bentref Llanfor – roedd arwyddion dros dro wedi cael ei gosod ac yn ddiweddarach roedd swyddog Cyngor Gwynedd wedi gosod arwyddion swyddogol. Cafwyd cadarnhad fod y broblem wedi gwella.
- iv) Cerrig wedi disgyn i beipen y ffos ar y ffordd gefn rhwng Four Crosses a Tollgate, Glanrafon. Cytunodd y clerwr i basio'r mater ymlaen.